# Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

## Hanesion Cynhyrchwyr: Vitaliano

Anapqui, Bolivia, Quinoa



# Vitaliano Ayaviri Huayllani

Mae Vitaliano Ayaviri Huayllani wedi bod yn gweithio gyda Anapqui ers 2001. Fel llawer o'r bobl sy'n gweithio yn y gwaith prosesu quinoa yn Challapata, mae hefyd yn ffermwr quinoa ac yn aelod o un o'r saith cwmni cydweithredol rhanbarthol sy'n ffurfio Anapqui. Mae'n gofalu am y gwaith o drawsffurfio'r quinoa sylfaenol i yn ffurfiau eraill megis fflochion, pops a blawd.

**"Os ydych eisiau gwarant eich bod yn prynu quinoa organig, Anapqui yw hwnnw."**





Mae gwraig Vitaliano, Daria Nina Apala, hefyd yn gweithio i Anapqui fel gofalwraig yr hen waith Anapqui. Mae Vitaiano a Daria'n byw yma gyda'i mab, Lorenzo, sydd eisiau mynd i'r brifysgol yn Cochabamba neu La Paz i astudio anthropoleg, a hefyd eu merch ieuengaf, Tatiana Mirabel. Mae gan eu dwy ferch hynaf eu plant eu hunain erbyn hyn.

"Mae gan Daria gytundeb parhaol gydag Anapuqi ac mae hynny'n rhoi sicrwydd i ni. Dyma'n bennaf yw'r manteision: gallwn fyw yma a does dim rhaid talu rhent nac am ddŵr a thrydan.

"Cyn 1983 doeddwn ni ddim yn gweithio fel hyn ac roedd yn rhaid i ni werthu'r quinoa am bris isel iawn ar y farchnad leol. Rydym yn ddiolchgar iawn fod Anapqui wedi'i sefydlu ac wedi dechrau archwilio'r farchnad i allforio'r cynnyrch, sy'n golygu fod y pris y quinoa yn llawer uwch.

Lluniau: Traidcraft/Carlos Grantham
Mae Anapqui'n cyflenwi pasta i Traidcraft.
Gwybodaeth o gyfweliadau ym mis Hydref 2008.

# Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

## Hanesion Cynhyrchwyr: Luciano and Fisser

Anapqui, Bolivia, Quinoa



## Luciano Ayauiri Huayllani

Mae Luciano'n ffermio quinao ac wedi bod â rhan yn Anapqui ers nifer o flynyddoedd, gan weithio yn ei ffatri yn Challapata am dair blynedd yn y 1990au. Mae'n llywydd un o'r saith cwmni cydweithredol rhanbarthol.



**"Mae Anapqui'n agor cyfleoedd newydd o ran gwerthu'n cynnyrch. Y peth pwysicaf yw bod y cwmni cydweithredol yn gallu casglu holl gynnyrch ei aelodau a'i roi i Anapqui er mwyn ei werthu ar y farchnad gartref ac ar y farchnad dramor.**





## Fisser Garcia

Mae Fisser yn aelod o gwmni cydweithredol COPROQUIRC ym mhentref Irpani sydd â 122 o aelodau. "[Cyn Anapqui] roeddwn i'n gwerthu i fasnachwyr canolog ac roedd tri ohonyn nhw yn yr ardal. Doedd y quinoa ddim yn gwerthu cystal yr adeg hynny a hefyd roedden ni'n cynhyrchu mwy ohono ac felly'n cael pris is. Weithiau doedden ni ddim yn ei werthu am arian, dim ond ei gyfnewid am gynnyrch arall megis siwgwr a blawd.

**"Rydyn ni'n falch iawn eich bod yn defnyddio quinoa mewn pasta. Mae'n fwyd maethlon iawn."**

"Y gwahaniaeth, yn enwedig o gymharu â chwmnïau preifat, yw, pan fyddwn ni'n gwerthu'n cynnyrch i Anapqui, y bydd Anapqui yn rhannu unrhyw elw ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r holl aelodau. Os bydd cwmni preifat yn gwneud elw, bydd yn ei gadw iddo'i hunan. Dydyn nhw ddim yn rhannu unrhyw beth."